Gwneud Cystal â Goreuon y Byd —yr Heriau sy'n Wynebu Gwasanaethau Ysbyty yn Ne Cymru

Mae cleifion yn ne Cymru'n haeddu cael mynediad at y gofal iechyd gorau. Ond mae'r ffordd y mae rhai gwasanaethau arbenigol mewn rhai ysbytai'n cael eu trefnu ar hyn o bryd yn golygu nad yw cleifion yn derbyn y gwasanaethau gorau bob amser nac yn gweld y canlyniadau gorau.

Mae hyn yn golygu na allwn ni ganlyn arni fel yn y gorffennol — mae'n rhaid inni newid y ffordd y mae rhai gwasanaethau ysbyty arbenigol yn cael eu darparu os ydym am weld ein cleifion yn derbyn y gofal gorau trwy'r amser.

Darperir y rhan fwyaf o ofal mewn ysbytai yn ystod y diwrnod gweithio, o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac at ei gilydd mae'r canlyniadau'n dda iawn. Ond mae peth tystiolaeth i awgrymu bod ansawdd gofal a'r canlyniadau'n gallu amrywio gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Rydym am weld cleifion yn cael gofal o'r un safon lle bynnag y maen nhw'n byw, ni waeth pa ddydd o'r wythnos ydyw — rydym am ichi gael mynediad at ofal dan arweiniad ymgynghorydd ddydd a nos, a'r canlyniadau gorau posibl trwy'r amser.

Mae Cymru, yn debyg i wledydd eraill Prydain, yn wynebu prinder meddygon mewn rhai gwasanaethau allweddol. Mae rhai o'r problemau hirsefydlog hyn yn anodd i'w datrys oherwydd y ffordd y mae ein gwasanaethau ysbyty'n cael eu trefnu.



Mae newidiadau yn y ffordd o hyfforddi meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill wedi effeithio hefyd ar argaeledd staff allweddol ac ar y canlyniadau i gleifion.

Rydym yn wynebu'r posibilrwydd bellach na fydd digon o feddygon â'r sgiliau arbenigol addas ar gael i drin cleifion. Ni allwn ni ganiatáu i'r fath sefyllfa ddatblygu.

Bu raid i'r GIG weithredu ar frys yn barod i newid gwasanaethau oherwydd diffyg staff meddygol a chlinigol — yn yr achos mwyaf diweddar, rhoddwyd terfyn ar gynnig gofal meddygol brys yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.

Rydym am greu gwasanaethau sefydlog, diogel a chynaliadwy, sy'n gofalu am gleifion heddiw, yn hyfforddi staff gofal iechyd ar gyfer yfory gan gynnwys meddygon, ac yn cwrdd ag anghenion trigolion de Cymru yn y dyfodol.

Beth allwn ni'i wneud i sicrhau y bydd gwasanaethau'n sefydlog, yn ddiogel ac yn gynaliadwy?

Mae ein meddygon, nyrsys, bydwragedd, therapwyr a rheolwyr wedi bod wrthi'n trafod sut gall y GIG ymateb i'r problemau hyn o ran recriwtio a chyllido gan wella ansawdd a safon gofal ar yr un pryd ledled de Cymru.Mae mwy na 300 o glinigwyr wedi cwrdd yn rheolaidd mewn cyfres o uwch-gyfarfodydd a chynadleddau clinigol ers dechrau 2012. Maent yn credu bod angen canoli rhai gwasanaethau ysbyty arbenigol ar lai o safleoedd os ydym am sicrhau bod pawb yn cael y gofal gorau a'r canlyniadau gorau posibl, ni waeth pa amser o'r dydd neu'r nos na pha ddiwrnod o'r flwyddyn.

Maent yn credu bod mynediad 24/7 at ofal damweiniau ac achosion brys, a gwasanaethau pediatrig a newydd-enedigol ac obstetrig dan arweiniad ymgynghoryddion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal o'r ansawdd gorau. Maent yn credu hefyd y dylai'r gwasanaethau hyn gael eu canoli ar safleoedd pedwar neu bump ysbyty ar draws de Cymru. Mae'n rhaid inni barhau i archwilio er mwyn gweld a yw modelau'r pedwar safle a'r pum safle'n gallu cynnig yr un ystod o wasanaethau. **Bydd unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau ysbyty arbenigol hyn yn effeithio ar gyfran fach o gleifion yn unig — sef y rhai mwyaf sâl a'r rhai â'r anafiadau mwyaf difrifol — bydd y rhan fwyaf o bobl yn dal i dderbyn gofal yn eu hysbyty lleol.**

Sut olwg fydd ar hyn?

Dyma'r senarios dichonol petaem yn canoli gofal 24/7 dan arweiniad ymgynghoryddion ym meysydd pediatreg, obstetreg, gwasanaethau newydd-enedigol a Damweiniau ac Achosion Brys mewn pedwar neu bump Ysbyty (YAC—Ysbyty Athrofaol Cymru)

Scenario 4.1	Scenario 4.2	Scenario 4.3
YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau, Caerdydd	YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau, Caerdydd	YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau Caerdydd
SCCC *	SCCC *	SCCC *
Ysbyty Treforys, Abertawe	Ysbyty Treforys, Abertawe	Ysbyty Treforys, Abertawe
Ysbyty'r Tywysog Siarl	Ysbyty Tywysoges Cymru	Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Scenario 5.1	Scenario 5.2	Scenario 5.3
YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau	YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau	YAC/Ysbyty Athrofaol Llanddochau
SCCC *	SCCC *	SCCC *
Ysbyty Treforys, Abertawe	Ysbyty Treforys, Abertawe	Ysbyty Treforys, Abertawe
Ysbyty'r Tywysog Siarl	Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful	Ysbyty Tywysoges Cymru
Ysbyty Tywysoges Cymru	Ysbyty Brenhinol Morgannwg	Ysbyty Brenhinol Morgannwg

*Bwriedir i'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC) ger Cwmbran ddarparu'r gwasanaethau arbenigol a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall

Ni phenderfynwyd dim hyd yn hyn. Carem glywed eich sylwadau chi ynghylch y problemau sy'n wynebu'r GIG a'r gwahanol senarios dichonol ar gyfer canoli gofal 24/7 dan arweiniad ymgynghoryddion yn ne Cymru.

SWP Feedback, Cardiff and Vale UHB HQ, Whitchurch Hospital , Park Road, Whitchurch, Cardiff, CF14 7XB

southwales.programme.cav@wales.nhs.uk @CV_UHB #NHSSWP www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/swp